

# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

**DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022**

**PRESENNOL** Cyngorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

D. Nicholas

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

K.V. Broom

L. Davies

A. Evans

R. James

D. Jones

K. Madge

D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol;

R. Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol;

S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);

A. Clarke, Partner Busnes Arweiniol (Adnoddau Dynol);

G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;

L. Evans, Uwch-ymgynghorydd Adnoddau Dynol;

H. Font, Rheolwr Llesiant Gweithwyr;

J. Owen, Rheolwr Rhaglen TIC;

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, ac o hirbell: 10.00 yb - 12.15 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Davies a H.A.L. Evans ac Aelodau Cabinet y Cynghorwyr P. Hughes, A. Lenny a D. Price.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Evans	7 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022-23;	Ei fam yn gweithio i'r adain Gwasanaethau Democrataidd;
R. James	4 – Adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch - Hanner Blwyddyn/Ch2 2022/23;	Ei bartner yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd;
K. Madge	4 – Adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch - Hanner Blwyddyn/Ch2 2022/23; 7 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2022-23;	Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

### 4. **ADRODDIAD MONITRO ABSENOLDEB SALWCH HANNER BLWYDDYN/CH2 2022/23**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr R. James a K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon ond arhosant yn y cyfarfod wrth iddi gael ei hystyried.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi data am absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod Ch2 yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 yn ogystal â chrynodeb o'r camau gweithredu.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Ystyriwyd bod yr opsiynau cynyddol i staff weithio mewn aml-leoliadau yn gam cadarnhaol o ran lefelau absenoldeb salwch gan y gallai staff, lle bo modd, barhau i weithio gartref ac efallai na fyddent wedi teithio i'r gwaith o'r blaen;
- O ran swyddi gwag, pwysleisiwyd bod y gwaith o recriwtio'n parhau o hyd er cydnabyddid ei bod yn anodd denu ymgeiswyr ar gyfer rhai swyddi. Fel y nodwyd eisoes roedd rhai disgrifiadau swyddi wedi cael eu hail-ystyried mewn ymdrech i annog mwy o bobl i wneud cais am swyddi ac mewn rhai achosion roedd yr Awdurdod hefyd yn gallu ychwanegu taliadau atodol ar sail y farchnad at y cyflog. Cafodd aelodau wybod bod yr Awdurdod wedi cyflawni Achrediad Aur yn ddiweddar yn dilyn adroddiad gan asesydd gan Fuddsoddwyr Mewn Pobl oedd yn adlewyrchiad o'r gefnogaeth a roddodd i'w weithwyr;
- Cytunodd swyddogion fod angen gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y mesurau absenoldeb salwch yn berthnasol yn deg ar draws yr holl staff waeth beth oedd eu rôl a oeddent yn weithwyr mewn swyddfa neu'n weithwyr rheng flaen;
- Cytunodd y Rheolwr Llesiant Gweithwyr i ddarparu dadansoddiad adrannol o'r 70 o Swyddogion Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl;
- O ran lechyd Galwedigaethol a'r galwadau ar y gwasanaeth, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar ffyrdd o ail-lunio'r gwasanaeth gydag ymagwedd fwy masnachol o bosib. Byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am roi'r gefnogaeth i'r staff.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### 5. **GWELEDIGAETH AR GYFER CAM NESAF RHAGLEN DRAWSNEWID Y CYNGOR**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar weledigaeth/achos busnes ar gyfer cam newydd rhaglen drawsnewid y Cyngor, a fyddai'n cael eu defnyddio er mwyn llywio Strategaeth Drawsnewid dros y 5 mlynedd nesaf. Nod y strategaeth fyddai dylunio a gweithredu rhaglen drawsnewid mewnol er mwyn cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth a'i flaenoriaethau fel y'u nodir yn ei Strategaeth Gorfforaethol.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Cydnabuwyd bod angen gwella rhannu arferion gorau ar draws yr awdurdod;
- Nodwyd y byddai gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno i fonitro canlyniadau ac i benderfynu a oedd angen unrhyw gymorth pellach ar ôl i drawsnewidiadau a argymhellir gael eu gwreiddio.

Talodd y Rheolwr Rhaglen TIC deyrnged i Bernadette Dolan, aelod gwerthfawr o dîm TIC, a fu farw'n ddiweddar.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **6. COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PSB) SIR GÂR - MEDI 2022**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022. Roedd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod Pwyllgor Craffu Llywodraeth Leol penodol yn cael ei benodi i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn Sir Gaerfyrddin, penodwyd Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau y Cyngor fel y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Dyweddodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth fod y man Ffyrdd Newydd o Weithio yn Llandeilo y cyfeirir ato yn y cofnodion bellach ar agor i'w ddefnyddio. Ychwanegodd fod gweithdy wedi'i gynnal yn ddiweddar ar gyfer pob cynrychiolydd y BGC o ystyried nifer yr aelodau newydd lle codwyd y mater o bresenoldeb mewn cyfarfodydd y BGC.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022.**

## **7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr A. Evans a K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ond arhosant yn y cyfarfod wrth iddi gael ei hystyried.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 31 Awst 2022 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad a oedd yn rhoi manylion Monitro Arbedion 2022-23.

Roedd y canlynol ymhlith y materion ac ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Mewn ymateb i bryder ynghylch nifer y swyddi gwag yn y canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid, ailadroddwyd bod y swyddi gwag yn parhau i gael eu hysbysebu;
- Mewn ymateb i sylw, cadarnhawyd bod y bwriad i ad-drefnu'r adran marchnata a'r cyfryngau yn mynd yn ei flaen;
- Nodwyd mai dim ond un swydd wag oedd yn yr adran TG nid 5 fel y nodir yn yr adroddiad;

- Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i ostyngiad posib mewn taliadau banc.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**8. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2022 I MEDI 30AIN 2022**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Canol Blwyddyn ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2022 i sicrhau bod y gweithgareddau a wnaed yn gyson â gofynion Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-23 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Mawrth, 2022.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**9. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar gamau gweithredu, ceisiadau neu atgyfeiriadau a oedd yn deillio o gyfarfodydd craffu blaenorol.

O ran cam gweithredu cyf. P&R 008 21/22, dywedodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth y byddai'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystyried adroddiad diweddar ynghylch y cynnydd a wnaed ar y Fenter Deg Tref yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2022, ac y byddai'n trefnu i hyn gael ei ddsbarthu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.**

**10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

**11. COFNODION - 19EG HYDREF, 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 yn gofnod cywir.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**